

**Hawdd ei Deall**



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cardiff and Vale  
University Health Board

# Cynllun Gwasanaethau Clinigol ar gyfer Caerdydd a'r Fro

**Beth fyddwn ni'n ei wneud  
rhwng 2026 a 2035**



Shaping Our Future

**Clinical  
Services**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Cynllun Gwasanaethau Clinigol 2026 – 2035.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen o hyd. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** [bipcaf.gig.cymru](http://bipcaf.gig.cymru)


**Ffôn:** 02920 747747



Mae [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall. [I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.](#)

|                                                      |           |
|------------------------------------------------------|-----------|
| <b>Am y cynllun yma .....</b>                        | <b>4</b>  |
| <b>Newid beth rydyn ni'n wneud .....</b>             | <b>6</b>  |
| Dechrau'n Dda .....                                  | 9         |
| Galluogi Iechyd a Llesiant .....                     | 13        |
| Gofal wedi'i Drefnu .....                            | 19        |
| Gofal Brys ac Argyfwng .....                         | 22        |
| <b>Triniaethau newydd .....</b>                      | <b>24</b> |
| <b>Sut fyddwn ni'n gwneud y newidiadau yma .....</b> | <b>25</b> |
| <b>Gweithio gyda'n gilydd .....</b>                  | <b>29</b> |

# Am y cynllun yma



Mae hyn yn cael ei alw yn ein **Cynllun Gwasanaethau Clinigol**.



Gwasanaethau clinigol ydy'r gwasanaethau gofal iechyd i helpu pobl i gadw'n iach neu drin salwch ac anafiadau. Er enghraifft:

- Ymweld â meddyg neu nys.
- Gofal ysbyty.
- Cymorth iechyd meddwl.
- Ffisiotherapi.



Mae gennym ni brif gynllun o'r enw [Llunio ein Llesiant I'r Dyfodol](#). Mae'r cynllun am sut fyddwn ni'n gwella iechyd a llesiant pobl.



Mae'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol am beth fydd gwasanaethau clinigol yn ei wneud i helpu i wneud i hyn ddigwydd.

Ein nod mawr ydy:



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu rhoi yn gyntaf.



- Cefnogi pobl yn agosach at adref.



- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n deg ac yn gallu para am amser hir.



- Helpu I stopio pobl rhag mynd yn sâl yn y lle cyntaf.

# Newid beth rydyn ni'n wneud



Mae llawer o bobl yn cytuno bod yn rhaid i'r ffordd rydyn ni'n gweithio newid.



Rydyn ni'n credu y bydd ein cynllun yn helpu i wneud newidiadau mawr. Fe fydd hyn yn gwella iechyd pobl.



Mae ein cynllun newydd yn defnyddio model o ddarparu gofal sy'n gweithio gyda'i gilydd. Mae hyn yn meddwl gwneud pethau fel:



- Cadw pobl yn iach.



- Rhoi pobl yn gyntaf.



- Wedi ei seilio ar y gymuned. Dim ysbytai yn unig.



- Yn werth da am arian.



- Wedi ei seilio ar wyddoniaeth a thechnoleg. Mae hyn yn meddwl defnyddio'r ymchwil a'r offer diweddaraf i wella iechyd.



- Gweithio'n dda gyda sefydliadau eraill. Er enghraifft, y cyngor lleol a byrddau iechyd eraill.



- Cefnogi ein staff fel eu bod yn gweithio'n dda.



Mae'r model o weithio wedi ei seilio ar 4 maes. Maen nhw'n cael eu galw yn:

- Dechrau'n Dda.
- Galluogi Iechyd a Llesiant.
- Gofal wedi'i Drefnu.
- Gofal Brys ac Argyfwng.



Fe fyddwn ni'n siarad mwy am bob 1 nawr.

# Dechrau'n Dda

Rydyn ni'n gwybod y bydd anghenion iechyd plant yn parhau i godi. Mae hyn oherwydd pethau fel:



- Mae mwy o bobl.



- Mae llawer o blant yn byw mewn tlodi. Mae hyn yn meddwl nad oes ganddyn nhw ddigon o arian na mynediad at y pethau sylfaenol maen nhw eu hangen.



- Mae llawer o blant dros bwysau. Mae hyn yn achosi problemau iechyd.



- Mae rhai mamau yn ysmegu pan fyddan nhw'n feichiog.



Er mwyn gwella iechyd pobl, mae'n rhaid i ni ddechrau cefnogi anghenion babanod a phlant.



Mae hyn yn cynnwys babanod sydd ddim wedi'u geni eto.



Mae angen i wasanaethau weithio gyda'i gilydd i wella iechyd.



Fe fyddwn ni'n dysgu mwy am iechyd plant. A defnyddio hyn i feddwl am eu hiechyd yn y dyfodol.



Fe fydd canolfannau cymunedol yn rhan fawr ohonom ni yn cefnogi plant. Mae gwasanaethau yn gallu gweithio gyda'i gilydd yn well a chefnogi'r plentyn cyfan.



Fe fyddwn ni hefyd yn gwneud cynlluniau gyda phlant a theuluoedd. Mae hyn yn cael ei alw yn gyd-gynhyrchu. Mae'n meddwl y byddan nhw yn dweud pa wasanaethau sydd eu hangen a beth ddylen nhw fod.

**Mae 6 rhan i Dechrau'n Dda. Maen nhw'n cael eu galw yn:**



1. Gofal amenedigol a newyddenedigol. Mae hyn yn meddwl cefnogaeth o feichiogrwydd i enedigaeth ac ar ôl hynny.



2. Dechrau'n dda yn y gymuned. Mae hyn yn meddwl datblygu mwy o wasanaethau cymunedol.



3. Gwasanaethau digidol. Mae hyn yn meddwl cael gwasanaethau ar-lein sy'n cefnogi teuluoedd. Fe fydd hyn yn cynnwys gwybodaeth mae teuluoedd ei angen.



4. Gweithlu cywir. Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod gan staff y sgiliau a'r hyfforddiant maen nhw eu hangen.



5. Symud i wasanaethau oedolion. Fe fydd gwasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion yn parhau hyd at 25 oed. Fe fydd y gwasanaethau yma yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.



6. Cefnogaeth i'r teulu a'r gymuned. Fe fydd teuluoedd yn cymryd rhan wrth ddweud pa gefnogaeth maen nhw ei angen. A bydd gwasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd yn eu cefnogi'n well.

# Galluogi Iechyd a Llesiant

Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith i helpu pobl i gadw'n iach. Er enghraifft:



- Sefydlu clinigau cymunedol.



- Helpu mwy o bobl i roi'r gorau i ysmegu.



- Mwy o brofion ar gyfer clefydau a chanserau.



Mae'r math yma o waith yn helpu i stopio rhai problemau iechyd rhag digwydd. Neu yn meddwl bod pobl yn cael help yn gynharach, cyn i broblemau ddod yn fwy difrifol.

Fe fydd angen y gwasanaethau yma ar fwy o bobl oherwydd:



- Mae nifer y bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a'r Fro yn mynd i fod yn fwy.



- Mae pobl yn byw'n hirach, felly mae angen mwy o wasanaethau iechyd wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn.



Mae rhai pobl hefyd yn fwy tebygol o gael iechyd gwael ac mae ganddyn nhw fwy o broblemau iechyd. Mae hyn i'w wneud â phethau fel:



- Byw mewn ardal dlotach gyda llai o gyfleoedd bywyd.



- Dim yn ymarfer digon.



- Yfed gormod o alcohol.



- Bod yn unig.



Mae angen i ni helpu pobl i fyw'n dda am gyfnod hirach.



Mae'n rhaid i ni edrych ar eu iechyd corfforol, eu iechyd meddwl, eu bywydau cyfan.

Mae 5 rhan i'r adran yma:



1. Stopio problemau iechyd a gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg. Fe fydd hyn yn cynnwys cefnogi pobl i fyw bywydau iach. Ac i gymryd rhan mewn sgrinio a brechlynnau.



2. Gweithio gyda'n gilydd. Mae hyn yn meddwl bod timau iechyd yn gweithio gyda'i gilydd yn y gymuned.



3. Ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio gwasanaethau gofal. Mae hyn yn meddwl y bydd pobl yn cael gwell cyngor a chefnogaeth. Lle bynnag maen nhw'n gofyn amdano.



4. Gofal yn agosach at adref. Mae hyn meddwl cael mwy o wasanaethau cymunedol na dim ond ysbyty.



5. Genomeg. Mae hyn yn meddwl ein genynnau. Ein genynnau ydy beth sy'n ffurfio ein cyrff. Pan fyddwn ni'n dysgu am genynnau person, rydyn ni'n gallu rhoi gwell cymorth iechyd iddyn nhw.

## Pwysau gyda staffio



Mae yna lawer o broblemau i'w wneud â staffio. Er enghraifft:

- Staff yn mynd yn hŷn.
- Llai o bobl yn cael plant.
- Mwy o bobl yn gweithio dramor.
- Iechyd meddwl gwael.



Rydyn ni wedi meddwl am y pethau yma wrth wneud y cynllun yma. Mae'n rhaid i ni gynllunio sut rydyn ni'n cefnogi ein staff. Mae angen i ni hefyd feddwl am fathau o swyddi a ffyrdd o weithio.

## Gofal wedi'i Drefnu



Mae hyn yn meddwl gofal sydd wedi'i gynllunio ac nid argyfwng. Mae'n cynnwys iechyd corfforol a meddyliol.



Rydyn ni wedi gweithio'n galed i leihau rhestrau aros. Ond mae gwasanaethau o dan lawer o bwysau o hyd. Mae mwy o bobl angen gofal.



Mae yna lawer o broblemau gyda'n system iechyd a gofal. Maen nhw'n achosi oedi, straen a phroblemau eraill.



Mae pobl yn aml yn aros yn yr ysbyty yn rhy hir. Mae hyn yn costio llawer o arian ac mae angen mwy o staff.



Os ydyn ni'n gwella sut rydyn ni'n gweithio, fe fyddwn ni'n arbed arian.



Rydyn ni eisiau i wasanaethau gofal gael eu cynllunio'n dda.

Trwy newid sut rydyn ni'n gweithio:



- Fe fydd gwasanaethau iechyd yn gryfach.



- Fe fydd pobl yn cael gwell iechyd.



- Fe fydd cleifion hefyd yn cael profiadau gwell.

## Mae 5 rhan i'r adran yma



1. Gofal yn agosach at adref. Fe fydd ymweliadau â'r ysbyty yn llai cyffredin. Fe fydd mwy o wasanaethau yn y gymuned.



2. Gofal digidol. Fe fydd mwy o wasanaethau ar-lein lle maen nhw'n gallu bod. Ac i'r rhai sy'n gallu eu defnyddio.



3. Diagnosis cyflymach. Fe fydd pobl yn gallu cael diagnosis yn gyflymach. Fe fydd mwy o hyn yn y gymuned.



4. Rhwydweithiau gofal. Mae rhai gwasanaethau yn cael eu darparu'n well ar draws ardal fwy. Er enghraifft, ar gyfer rhai cyflyrau prin. Mae hyn yn meddwl bod byrddau iechyd yn gweithio gyda'i gilydd.



5. Staff. Mae angen i staff weithio yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn. Mae nhw angen cymorth i ddefnyddio eu sgiliau a'u profiad yn y ffyrdd gorau.


## Gofal Brys ac Argyfwng



Mae hyn yn meddwl gofal brys ac argyfwng i bobl sy'n sâl iawn neu wedi'u hanafu'n ddifrifol. Neu lle mae'r amodau'n gwaethygu'n gyflym.



Mae'r bobl fwyaf sâl yn cael eu trin mewn llefydd fel **unedau gofal critigol**. Mae materion yn gallu cynnwys problemau iechyd meddwl brys a rhywfaint o ofal diwedd oes.



Rydyn ni wedi parhau i geisio gwella gofal yn yr ardaloedd yma.



Mae peth o'r gwaith rydyn ni wedi'i wneud wedi helpu i leihau llawer o arosiadau yn yr ysbyty.

Mae'r adran yma yn cynnwys 5 rhan:



1. Sylwi ar broblemau yn gynnar ac ymateb yn gyflym. Fe fydd hyn yn cynnwys defnyddio technoleg.



2. Timau arbennig o staff a gofal 24 awr y dydd.



3. Gweithio'n agos gyda thimau a sefydliadau eraill i ddarparu'r gofal gorau.



4. Mae cleifion yn derbyn gofal o ansawdd uchel o'r dechrau i'r diwedd. Fe fydd hyn yn cynnwys ateb anghenion personol pobl. Er enghraifft, pobl ag anabledd dysgu.




5. Ymchwil a datblygu. Mae hyn yn meddwl dod o hyd i ffyrdd newydd o wella gofal iechyd.

# Triniaethau newydd



Mae triniaethau a newidiadau newydd wedi digwydd yn ddiweddar. Mae hyn mewn technoleg feddygol a digidol.

Fe fydd y rhain yn ein helpu i wella:



- Dod o hyd i afiechydon yn gynnar.

- Stopio salwch rhag digwydd.



- Stopio salwch rhag gwaethygu.

- Lleihau'r amser yn yr ysbyty.

# Sut fyddwn ni'n gwneud y newidiadau yma



Mae gennym ni gynlluniau mawr. Er mwyn eu cyflawni rydyn ni wedi edrych ar beth sydd angen i ni ei wneud a phryd.

## Y 3 blynedd gyntaf



Mae yna rai pethau rydyn ni'n gallu eu gwneud yn gynnar. Trwy newid sut rydyn ni'n gweithio, fe fydd rhai pobl yn gallu treulio llai o amser yn yr ysbyty.



Fe fyddwn ni'n datblygu mwy o wasanaethau cymunedol.



Fe fyddwn ni'n gweithio'n well gyda chynghorau lleol a sefydliadau eraill.




Fe fyddwn ni'n dechrau newid sut mae timau'n cael eu sefydlu.



Fe fyddwn ni'n gwella sut rydyn ni'n cefnogi pobl ag anghenion iechyd meddwl.



Fe fyddwn ni'n cefnogi pobl i wneud dewisiadau sy'n stopio rhai problemau iechyd.



Fe fyddwn ni'n newid sut mae'r bwrdd iechyd wedi'i drefnu.

## O flwyddyn 4



Fe fyddwn ni'n defnyddio ein model gofal newydd.



Fe fydd yn dechrau bod yn ffordd mwy normal o weithio. Felly erbyn 2035 fe fydd yn rhan lawn o'r ffordd rydyn ni'n gweithio.



I'r rhan fwyaf o bobl fe fydd gofal yn agos at adref.



Pan fydd angen gofal ysbyty, fe fydd y pethau yma yn digwydd:



- Fe fyddwn ni'n defnyddio ein model gofal newydd.



- Fe fydd yn dechrau bod yn ffordd mwy normal o weithio. Felly erbyn 2035 fe fydd yn rhan lawn o'r ffordd rydyn ni'n gweithio.



- I'r rhan fwyaf o bobl fe fydd gofal yn agos at adref.



- Pan fydd angen gofal ysbyty, fe fydd y pethau yma yn digwydd.

# Gweithio gyda'n gilydd



Fe wnaethon ni ddechrau'r cynllun yma trwy wrando ar beth mae llawer o bobl yn feddwl.



Roedd hyn yn cynnwys cleifion, staff a sefydliadau eraill.



Fe wnaethon ni ddefnyddio sawl ffordd i glywed beth roedd pobl yn feddwl.



Trwy wneud hyn fe wnaethon ni ddarganfod beth oedd mwyaf pwysig i bobl.

Dyma nhw:



- Gofal yn agosach at adref ac yn haws cael mynediad at ofal.



- Gwasanaethau ar-lein.



- Gwasanaethau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.



- Gwell cyfathrebu.



Mae'r gwaith yma wedi ein helpu i ddarganfod beth i ganolbwyntio arno wrth wneud y cynllun yma.



Rydyn ni eisiau diolch i bawb sydd wedi bod yn rhan ohon.